



10 Mawrth 2022

Annwyl gyfaill

Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi y bydd [Deddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\) 2020](#) (y Ddeddf) yn dod i rym yng Nghymru ddydd Llun 21 Mawrth 2022.

Amcan cyffredinol y Ddeddf yw diogelu plant a'u hawliau drwy wahardd cosbi corfforol, yn unol ag ymrwymiad hirsefydledig Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O 21 Mawrth ymlaen, bydd pob math o gosbi corfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Ni fydd modd i rieni na phobl sy'n gweithredu â chyfrifoldeb rhiant ddefnyddio amddiffyniad cosb resymol bellach i'w hamddiffyn rhag cyhuddiad o ymosod a churo yn erbyn plentyn.

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol i gyfraith trosedd a chyfraith sifil. Caiff ei ddileu o dan gyfraith trosedd mewn perthynas â throseddau ymosod a churo yn y gyfraith gyffredin ac o dan gyfraith sifil mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn y person. Am y tro cyntaf, bydd cyfraith trosedd graidd yn wahanol yng Nghymru ac yn Lloegr.

Drwy'r newid hwn yn y gyfraith, bydd plant yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag ymosodiadau llawn gymaint ag oedolion. Bydd y gyfraith newydd yn berthnasol i ymwelwyr i Gymru hefyd. Nid yw'r newid hwn yn y gyfraith yn effeithio ar allu rhiant i ddisgyblu ei blentyn drwy osod ffiniau a chynnig cymorth ac arweiniad er mwyn iddo ddysgu sut i ymddwyn yn briodol. Ni fydd y Ddeddf yn rhwystro rhiant rhag ymyrryd yn gorfforol chwaith er mwyn diogelu plentyn rhag niwed, nac er mwyn rhoi help llaw gyda gweithgareddau bob dydd megis gwisgo neu gynnal hylendid a glendid. Mae rhieni a gofalwyr yn ymyrryd yn gorfforol yn aml er mwyn meithrin plant a'u diogelu. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng gweithgarwch o'r fath a'r defnydd o rym i achosi poen, anghysur neu gywilydd.

Cyn i'r gyfraith newid ar 21 Mawrth 2022, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, addysg ac eraill i sicrhau y caiff y gyfraith newid ei gweithredu yn y ffordd orau bosibl. Mae Grŵp Gweithredu Strategol wedi goruchwyllo tri grŵp gorchwyl a gorffen sy'n gweithio tuag at weithredu'r Ddeddf gan ystyried prosesau, canllawiau a hyfforddiant, cymorth rhianta a'r gwaith o fonitro unrhyw effaith yn y dyfodol ar yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae ymgyrch amlgyfrwng gynhwysfawr i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd eisoes ar waith, a bydd hon yn parhau yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Ddeddf yn rhan o becyn llawer ehangach o gymorth i blant a'u rhieni, gan gynnwys yr ymgyrch [Magu Plant. Rhowch amser iddo](#) sy'n cynnig syniadau i annog ymddygiad da a dewisiadau cadarnhaol y gellir eu defnyddio yn lle cosb gorfforol. Mae rhaglenni megis [Dechrau'n Deg](#) a [Teuluoedd yn Gyntaf](#) yn cynnig cymorth wedi'i dargedu hefyd, a gellir manteisio ar gymorth a chyingor ar fagu plant drwy'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, er enghraifft.

Ar 20 Medi 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS y byddai swm o £2.9m ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru, dros gyfnod o bedair blynedd, i gyllido cymorth rhianta cadarnhaol drwy'r grant cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae hyn yn golygu, os bydd yr heddlu yn penderfynu ei bod yn briodol cynnig datrysiad y tu allan i'r llys, y bydd modd cynnig cymorth er mwyn helpu i sicrhau na fydd yr unigolyn dan sylw yn aildroseddu. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol.

Y nod – drwy effeithiau'r newid yn y gyfraith, ein hymgyrch ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth a'r cymorth i rieni yr ydym yn ei gynnig – yw sicrhau ymhellach na chaiff plant eu cosbi'n gorfforol, ac na fydd neb yn goddef plant yn cael eu cosbi'n gorfforol.

Hoffwn gydnabod y cymorth a'r arbenigedd a roddwyd gan bob un o'r unigolion, y cynrychiolwyr a'r sefydliadau hynny (ac mae nifer mawr ohonynt) sydd wedi gwneud cyfraniad ac wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf dros y blynyddoedd diwethaf.

Rwyf wedi cynnwys nifer o ddolenni isod a allai fod o ddefnydd ichi, gan gynnwys dolenni at wahanol adnoddau a grëwyd i gefnogi ein hymgyrch i roi terfyn ar gosbi corfforol, gwybodaeth am gymorth i rieni a gwybodaeth i ymarferwyr.

Mae'r llythyr hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. A fyddech cystal ag ystyried ei ddosbarthu i unrhyw un o'ch cydweithwyr, staff neu unigolion neu sefydliadau eraill a fyddai, yn eich barn chi, yn elwa o'r wybodaeth bwysig hon. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi yn StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru

Yn gywir,



Karen Cornish
Ddirprwy Gyfarwyddwr - Yr Is-adran Plant a Theuluoedd
Deputy Director - Children and Families Division

Rhagor o Wybodaeth ar roi terfyn ar gosbi corfforol

- Mae gwybodaeth ac adnoddau i'r cyhoedd ynghylch rhoi terfyn ar gosbi corfforol ar gael yn: [Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)
- Mae adnoddau i sefydliadau ac ymarferwyr, gan gynnwys gwybodaeth i randdeiliaid, fideo esboniadol a thafenni gwybodaeth i weithluoedd gwahanol sectorau ar gael yn: [Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)
- Grwpiau gorchwyl a gorffen ar weithredu'r Ddeddf: [Grwpiau Gweithredu Deddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\) 2020 | LLYW.CYMRU](#)
- Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn trafod y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n hanfodol i ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant sy'n wynebu risg o gam-drin ac esgeulustod: [diogelu.cymru](#)
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Canllawiau Ymarfer). Mae canllaw ymarfer sy'n trafod achosion o gosbi plant yn gorfforol yn benodol ar gael yma: [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](#)
- Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y tu allan i'r Llys. Nod y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i weinyddu'r Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys a rhoi cyngor i'r heddlu, Timau Troseddau leuenctid ac awdurdodau lleol ar y llwybr atgyfeirio at gyfer y cymorth rhianta a roddir ar y cyd â datrysiad y tu allan i'r llys: [Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys: canllawiau | LLYW.CYMRU](#)
- Mae Magu plant. Rhowch amser iddo yn cynnig syniadau ymarferol a chyngor arbenigol ar rianta cadarnhaol er mwyn annog plant i ymddwyn yn dda a chynnig dewisiadau eraill yn lle cosbi corfforol. Mae'r dudalen cymorth rhianta yn cynnig dolenni i ragor o gymorth a llinellau cymorth. [Magu plant. Rhowch amser iddo](#)
- Gall bydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a [Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd](#) ddarparu cymorth a chyngor cyffredinol ar rianta.
- Rhaglenni cymorth cynnar megis [Dechrau'n Deg](#) (os byddwch yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg) a [Teuluoedd yn Gyntaf](#)